| | | |
|---|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001** | | **The Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2001/2002) (Wales) Regulations 2001** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Regulations.)* |
| Mae Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gwneud darpariaeth ar gyfer arian cyfalaf awdurdodau lleol. | | Part IV of the Local Government and Housing Act 1989 makes provision for the capital finance of local authorities. |
| Mae adran 49(2) o'r Ddeddf honno'n nodi fformwla ar gyfer penderfynu, at ddibenion Rhan IV, werth y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan awdurdod o dan drefniant credyd mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y daw'r trefniant i fodolaeth. | | Section 49(2) of that Act sets out a formula for determining, for the purposes of Part IV, the value of the consideration falling to be given by an authority under a credit arrangement in any financial year after the year in which the arrangement comes into being. |

| | | |
|---|---|---|
| Un o'r elfennau sy'n ffurfio'r fformwla yw cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer blwyddyn ariannol. | | The percentage rate of discount prescribed for a financial year is one of the elements which make up the formula. |
| Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cyfradd ganrannol o saith y cant o ddisgownt sy'n 0.5 y cant yn llai na chyfradd y disgownt a ragnodwyd ar gyfer 2000/2001. | | For the financial year beginning on 1st April 2001 these Regulations prescribe a percentage rate of discount of 7 per cent which is 0.5 per cent less than the rate of discount prescribed for 2000/2001. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S** |
| **2001 Rhif (Cy. )** | | **2001 No. (W. )** |
| **LlYWODRAETH, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001** | | **The Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2001/2002) (Wales) Regulations 2001** |
| *Wedi'u gwneud 2001*<br>*Yn dod i rym 1 Ebrill 2001* | | *Made 2001*<br>*Coming into force 1st April 2001* |

| | | |
|---|---|---|
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989**(a)** ac sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru**(b)**: | | The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the power given to the Secretary of State by section 49(2) of the Local Government and Housing Act 1989**(a)** which is now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales**(b)**: |
| **Enw, cychwyn a chymhwyso**<br><br>**1.**- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.<br><br>(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig. | | **Name, commencement and application**<br><br>**1.**- (1) The name of these Regulations is the Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2001/2002) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 1st April 2001.<br><br>(2) These Regulations apply to Wales only. |
| **Cyfradd y disgownt**<br><br>**2.** Saith y cant fydd cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 at ddibenion adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | | **Rate of discount**<br><br>**2.** The percentage rate of discount prescribed for the financial year beginning on 1st April 2001 for the purposes of section 49 of the Local Government and Housing Act 1989 is 7 per cent. |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**. | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**. |
| | | |
| [ ] 2001 | | [ ] 2001 |
| Llywydd y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | | The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1989 p. 42.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) 1998 p. 38.

(a) 1989 c. 42.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1998 c. 38.